Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 3ydd Mis Ebrill 2024

**Presennol**
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, R Ashton, G Davies a G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau** - P Jones, E Lewis

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

**Cyflwyniadau –**

**Datganiadau diddordeb** –

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 6ed Mawrth 2024**
Pawb yn gytun

**Materion yn codi**

1. Parcio ceir ym mhentref Llan - . S Reast a F Cauley i cydweithredu ar symud yr hen hysbysfwrdd o wal y siop yn Llanbrynmair i'r safle yn Llan.
2. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - Mae Kevin Jones Landscapers o Fachynlleth wedi gwneud toriad cyntaf y gwair a'r llinellau gwyn. Cytynwyd gosod arwyddion ynglyn a risg personol a gwahardd cŵn a sbwriel cyn gallu agor y cae i'r cyhoedd.
3. Cyfleusterau cyhoeddus - Fydd Adam Toye yn mynd ati i cwbwlhau'r gwaith adnewyddu yn ystod y mis i ddod. Mae Hafren Dyfrdwy wedi mesur llif y dŵr o'r meter ac wedi darganfod ei fod yn parhaus sydd yn awgrymu gollyngiad. Mae Steve Ashworth yn fodlon cymryd y gwaith o glanhau drosodd o Ebrill y 1af ar telerau gwreiddiol Tony Evans.
4. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Mae I Edwards wedi cael pads newydd i'r difibrilwr yn Nhalerddig ac offer newydd i Pennant
5. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - S Reast i ofyn i Wicksteed am dyddiad i cwbwlhau'r prosiect. Mae Bran Dearling wedi tocio'r coeden ceirios sydd yn ymyryd ar lleoliad y 'Zip wire'. Fydd angen ystyried sut i cael gwared o'r chwyn sydd yn tyfu trwy'r defnydd ar lawr o dan yr offer chwarae
6. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
7. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – Cafwyd cyfarfod gyda Rheolwr Ardal Gwastraff ac Ailgylchu ar y safle a cytynwyd i gyrru'r loriau i fyny'r ffordd i casglu'r sbwriel ac i droi rown yn iard Rhiwgan
8. Lloches Bws Dolfach – Cadarnhawyd fod Cyngor Sir Powys yn mynd yn ei flaen i gosod y lloches bws yn Nolfach. G Mitchell i gwneud ymholiadau ynglyn a trefniadau
9. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Mae gwirfoddolwr yn Bont wedi cychwyn y gwaith
10. Bainc yn Dolfach –Mae E Lewis wedi gofyn i Tony Evans bwrw 'mlaen gyda'r gwaith am £300.00
11. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Rhaid aros am tywydd sych i symud y sied – dim diweddariad

12. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – E Davies a F Cauley wedi gweld cynrichiolwr o Hafren Dyfrdwy yn Bont ac wedi gofyn iddo holi am y gwaith sydd eto i'w wneud
13. Problemau gyda'r Ganolfan Iechyd – E Davies a S Evans i cwrdd a Lucy Cockram a Dr Shaw ar y 30ain o Ebrill
14. Dwr yn llifo wrth Pont Grîn – S Reast wedi adrodd at Powys. Gwelwyd gwaith yn digwydd ar pipbellau dŵr yn y man felly efallai fydd y problem wedi ei ddatrus
15. Baw cŵn – Cytynwyd i cynllunio a danfon taflenni i trigolion y pentref wedi derbyn cyngor gan y PCO ac Adran yr Amgylchedd
16. Openreach yn torri coed a gadael brigiau ar lawr – S Reast wedi gwenud ymholiadau
17. Diffyg gohebiaeth i cais cynllunio Hafodwen – S Reast wedi gwneud ymholiadau i'r Adran Cynllunio
18. Llwybr heibio Ysgoldy Talerddig angen giat – S Reast wedi adrodd i Powys ond cytynwyd i I Edwards cydlynnu trwsio'r giat ei hunain
19. Aros dros nôs yn y maes parcio – Cytynwyd ar cynllyn arwyddion. S Reast i'w archebu
20. Cyflymder 20mya ar ffordd Pandy – Cadarnhawyd fod camgymeriad wedi ei wneud ac ni ddylai'r cyfyngiad cyflymder o 30mya a wedi cael ei newid. Mae'r arwydd 20mya wedi mynd a'r un gwreiddiol o 30mya yn ôl yn ei le
21. Mynediad trwy cae y cymuned – Cytynwyd na ddylai cerbydau cael mynd trwy'r cae heblaw am y torrwr gwair ac amser paratoi at y sioe er mwyn diogelwch y cyhoedd, yn enwedig y plant
22. Llwybrau Cyhoeddus – ?
23. Peipen nwy yn mynd ar draws ffordd Brynaire – Mae Cyngor Sir Powys wedi cytuno i cydlynni'r ymholiad gyda'r cwmni nwy
24. Uchder Pont Soar – Trafodwyd y ffaith fod yr uchder sydd wedi ei nodi ar y pont yn gamarweiniol ond dealltwyd fod angen arweiniad ar gyfer loriau tal yn gwyro o un ochr i'r llall
25. Coed yn Gwyro i'r ffordd ar ôl Plas Pennant – S Reast i wneud ymholiadau

**Materion ffyrdd**

- Dŵr ar ffordd Pandy – G Mitchell i edrych i mewn iddo fo a cwrdd a R Ashton ar y safle
- Gridiau gwartheg rhwng Talerddig a Cwmcalch - wedi llenwi gyda mwd. Mae Gwaith ar y grid ger Belan wedi ei cwbwlhau
- Peipen o dan y ffordd wrth Ystradfawr – G Mitchel wedi edrych ar y mater
- Materion ar yr A470 – Cymerodd Russel George AS rhan yn y cyfarfod i drafod y canlynol:
  1. Ffordd yn disgyn wrth Dolgoch - Cadarnhawyd fod yn cynlluniau ar y gweill
  2. Effaith o cau hwnw ar y ffordd o Talerddig i Bont tra fydd gwaith ar y gweill – I'w ddatrus
  3. Cyflymder traffig ar gornel Wynnstay – S Reast I ofyn am data gan GoSafe
  4. Cyflymder traffig yn Nhalerddig - Russell George AS I ofyn am 50mya ar y ffordd fawr I Talerddig, G Mitchell I ofyn am 30mya ar y ffrodd fach tuag at Bont

5. Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair ac ymlaen i Tafolwern – Ymholiadau i David Selby (aelod cabinet), Diane Reynolds (Uwch Swyddog, Adfywio) a Vincent Goodwin (Active Travel)

- Fuodd E Davies a G Mitchell ar daith i trafod y materion ffyrdd canlyonl: 1. Cerrig gwyn a pyst ar ymyl ffordd Pandy, 2. Ffordd yn disgyn islaw Lluest. 3. Draen wrth yr Hen Gapel. 4. Cyflwr y ffordd pen draw Pandy/Tafolog. 5. Gwreiddau ar ochr y ffodd wrth Penfilltir, Bont a 6. Cyflwr ffordd Cwmcarnedd. Ers hyny, mae G Mitchell wedi hefyd cwrdd a Aled Jones o Powys i ddangos y materion iddo fo. Mae'r draen wrth yr Hen Gapel yn flaenoriaeth.
- Ffordd yn disgyn wrth Craig yr Henffordd – Dim diweddariad

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)**

**Gohebiaeth**

- Cyhoeddwyd poster ar gyfer cyfarfod yn Llandrindod ynglyn a peilonau a thyrbinau yn Nghanolbarth Cymru ar y 30ain o Ebrill

**Cynllunio**

- 24/0041/FUL, One Planet Development to include a residential unit, processing/packing unit, 3 no. polytunnels, 2 no. agricultural shelters, 2 no. yurts for holiday use, 2 no. poultry sheds, 2 no. micro wind turbines, 5 no. water tanks, fuel tank, log store, cold store, beehive, compost bay, vegetables beds, reed beds, erection of footbridge, access tracks and all associated works (part retrospective), Land At Gardd Afon Tafolwern Llanbrynmair Powys SY19 7DT - Gwrthwynebwyd
- 24/0359/FUL | Installation of a 30 m lattice tower supporting 3 no. antennas and 2 no. 0.6m dishes; 2 no. equipment cabinets, 1 no. meter cabinet, 1 no. generator within a compound comprised of 1.8 metre high palisade fencing and ancillary development | Layby Within - Cefnogwyd

**Cyfriflen a balans ariannol**

Ar gael ar 25/03/24

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | £27,931.10 |
| Cyfrif Cadw | £2,927.08 |
| Cyfanswm | £30,858.20 |
| Sieciau heb eu cyflwyno | £100.00 |
| Balans ar gael | £30,758.20 |

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| **Dyddiad cytunwyd** | **Eitem** | **Cyfanswm** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| 03/04/24 | Cyflog y Clerc | £368.00 | Cytynwyd |
| 03/04/24 | Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffenaf) | £92.00 | Cytynwyd |
| 03/04/24 | Aelodaeth Un Llais | £196.00 | Cytynwyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymru | | |
| 03/04/24 | Arfon Hughes - Gwasanaethau cyfieithu | £120.00 | Cytynwyd |
| 03/04/24 | A C Evans – Glanhau'r toiledau | £550.00 | Cytynwyd |
| 03/04/24 | DRE & Co. – Costau gweinyddu PAYE | £77.40 | Cytynwyd |

**Unrhyw fater arall**

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- G Davies – Pant yn y ffordd rhwng troiad Pentremawr a Gwernbwlch
- R Ashton – Dŵr yn sefyll ar y ffordd ar ôl Station Garage

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 1af Mai 2024 yn cynnwys y cyfarfod blynyddol**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 5ed Mehefin 2024**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair